# Asesiad o’r effaith ar hawliau plant

# Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

## Amcan y polisi

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ymateb i'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim sy'n deillo o'r pandemig ac i adolygu’r meini prawf cymhwystra, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y bydd yr adnoddau'n caniatáu hynny ac o leiaf i bob plentyn mewn ysgol gynradd. Mae sicrhau bod teuluoedd sy'n teimlo effaith yr argyfwng costau byw yn cael cynnig pryd bwyd ysgol maethlon am ddim yn ymrwymiad ar y cyd yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc, gan gynnwys awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol Cymru (LACA Cymru), ysgolion, a chynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd, i gyd-lunio dull o gyflwyno’r polisi.

Darparwyd cyllid i awdurdodau lleol fel prif weithredwyr newid i gefnogi'r paratoadau ar gyfer cyflwyno'r polisi, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid lleol fel disgyblion, teuluoedd a phartneriaid cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion i ddeall a lliniaru unrhyw rwystrau posibl i weithredu'r polisi ac ymddygiad a allai effeithio ar ddarparu cynnig o bryd ysgol am ddim a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig hwnnw.

Mae adborth o’r ymgysylltiad hwn wedi caniatáu i awdurdodau lleol ac ysgolion ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol, gan ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol.

DRAFT

## Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Yn ystod camau cynnar y broses gyflwyno, cafwyd adborth gan y rhai yr oedd y polisi'n effeithio arnynt, ac i adeiladu ar hyn rydym yn cynnig mai'r prif effeithiau cadarnhaol fydd y canlynol:

- **Manteision iechyd**: mae'n darparu pryd iach a maethlon i bob dysgwr mewn ysgolion cynradd bob dydd.
- **Manteision o ran ymddygiad a chyrhaeddiad**: mae'n helpu i wireddu manteision tymor hwy trwy sefydlu arferion bwyta iach yn gynnar mewn bywyd y bydd plant yn cadw atynt wrth dyfu'n oedolion, yn codi proffil bwyta'n iach ar draws yr ysgol gyfan, yn cynyddu'r ystod o fwyd y mae disgyblion yn ei fwyta ac yn gwella sgiliau cymdeithasol a llesiant yn ystod amser bwyd.
- **Tlodi bwyd**: bydd yn helpu ein hymdrechion i ddileu tlodi plant ac i fynd i'r afael â llwgu ymysg plant.
- **Manteision i'r economi leol**: bydd yn buddsoddi yn ein heconomi trwy gefnogi busnesau sy'n darparu bwyd lleol, cynaliadwy. Ymhen amser, bydd hefyd yn effeithio ar gyflenwad bwyd lleol ac yn cefnogi economi Cymru yn barhaol.
- **Yn cyd-fynd â'n dyheadau ar gyfer Cenhedlaethau'r Dyfodol**: drwy greu cyfle i bob plentyn cynradd rannu a mwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd, rydym yn gobeithio elwa ar fanteision ein buddsoddiad yn nysgu disgyblion, yn eu sgiliau cymdeithasol ac yn eu hiechyd tymor hwy.

Rydym hefyd yn cydnabod bod heriau wrth gyflwyno darpariaeth gyffredinol y bydd angen eu monitro a'u hadolygu drwy gydol y camau gweithredu cynnar a thu hwnt:

- sicrhau bod y seilwaith ysgolion (cyfleusterau arlwyo a bwyta) a chapasiti'r gweithlu yn ddigonol i gefnogi'r ehangu
- rheoli goblygiadau ymarferol darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd er mwyn achosi cyn lleied o darfu â phosibl - er enghraifft, gwasgaru amseroedd cinio er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer chwarae a gweithgareddau eraill
- cynnal darpariaeth o ansawdd uchel a chynyddu'r cyflenwad o fwyd Cymreig ar blât yr ysgol
- bodloni gofynion penodol y rhai sydd â'r angen mwyaf a'r dysgwyr hynny sydd â gofynion dietegol penodol
- darparu darpariaeth deg ar draws pob ysgol gynradd yng Nghymru a
- gwireddu manteision llawn prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd drwy sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar y cynnig

## Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog

Mae cyflawni prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio. Ni ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd yn yr ysgol.  Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn ymyriad a fyddai'n gweddnewid sefyllfa plant sy'n llwglyd neu sy'n byw mewn tlodi. Byddai hefyd yn helpu gyda chyrhaeddiad addysgol a maeth plant ac yn arwain at gynhyrchu mwy o fwyd yn lleol a rhagor o gadwyni dosbarthu lleol, gan hybu economïau lleol.

Wrth i brydau ysgol am ddim gael eu cyflwyno’n raddol i holl blant ysgolion cynradd, bydd y data sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r telerau a'r amodau cyllido a'r ymgysylltu rheolaidd parhaus ag awdurdodau lleol yn llywio'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig ac yn nodi unrhyw gyfleoedd a heriau i gyflwyno’r cynnig. Bydd hyn yn llywio'r cyngor i Weinidog y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â chyflymder ymestyn y cynnig i bob plentyn ysgol gynradd.

Yn ogystal, bydd hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar gynlluniau i ymestyn y cynllun ymhellach ym mlwyddyn academaidd 2023/24 i gyflawni'r ymrwymiad i bob disgybl ysgol gynradd gael pryd ysgol am ddim erbyn mis Medi 2024.

## Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc

Bydd ymgysylltu parhaus yn rhan bwysig o'r broses o gyflwyno’r cynnig a’i weithredu yn y tymor hwy. Bydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ac ysgolion gael adborth gwerthfawr i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol, yn enwedig lleisiau a phrofiadau plant a'u rhieni.

Bydd y gwersi o'r ymgysylltu hyd yma yn cael eu defnyddio i lywio bwydlenni a sesiynau blasu a datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag addysg bwyd – gan integreiddio cyfleoedd i helpu plant i ddeall o ble y daw eu bwyd a phwysigrwydd deiet iach i'w llesiant.

Wrth symud ymlaen, bydd ein cynlluniau ar gyfer ymgyrch tair blynedd i hyrwyddo'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd pellach i ymgysylltu’n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'r rhai sy'n cynrychioli eu buddiannau, gan gynnwys rhieni. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth i integreiddio'r gweithgarwch i ymgyrchoedd ehangach Llywodraeth Cymru ar gostau byw ac unrhyw ymgyrchoedd perthnasol eraill.

DRAFT

## Monitro ac adolygu

Bydd y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun, y gwariant ar y cynllun a’r adborth ansoddol a geir drwy gyfarfodydd cynnydd rheolaidd gydag awdurdodau lleol, yn cael eu monitro trwy delerau ac amodau grant. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall unrhyw gyfleoedd a heriau sy'n dod i'r amlwg ac asesu a oes mwy y gallwn ei wneud i roi cefnogaeth well.

Mae opsiynau’n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r polisi ar brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Mae'n hanfodol bod gwerthusiad cadarn yn cael ei wneud o weithrediad y polisi yn ogystal â’i effaith ar draws amrywiaeth o feysydd.

Mae nifer o fecanweithiau yn eu lle eisoes ar gyfer monitro'r niferoedd sy’n manteisio ar y cynnig a'r ddealltwriaeth o’r broses o’i weithredu - byddwn yn parhau i fonitro'r niferoedd hyn drwy adroddiadau rheolaidd a chyfarfodydd gydag awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol a'r rhai y mae'r polisi yn effeithio arnynt i asesu effaith y polisi a sut mae'n ategu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod unrhyw rwystrau i'w weithredu yn cael eu nodi a'u lliniaru.

Yn ogystal, mae'n bwysig nad yw'r niferoedd sy'n hawlio prydau ysgol am ddim (eFSM) yn dirywio o ganlyniad i'r cynnig a bod teuluoedd cymwys yn dal i wneud cais am brydau ysgol am ddim er mwyn cael mynediad at fathau eraill o gymorth. Felly, byddwn yn adolygu data CYBLD i fonitro'r niferoedd sy'n hawlio ac yn asesu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach trwy ein hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu parhaus.

Byddwn yn defnyddio'r adborth a'r hyn a ddysgir o'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd i lywio meysydd gwaith allweddol eraill a fydd yn cefnogi'r cynnig ehangach mewn perthynas â bwyd mewn ysgolion, gan gynnwys adolygu cymhwystra am brydau ysgol am ddim yn fwy cyffredinol, diweddaru 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'[1], sicrhau dull cydlynol o gyflenwi a chaffael bwyd,  a gwneud y mwyaf o fanteision ehangach y prydau ysgol am ddim drwy ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd.

Yn Llywodraeth Cymru, sefydlwyd strwythur llywodraethu trawslywodraethol at y diben hwn, gan gynnwys Bwrdd Portffolio sy'n cynnwys meysydd polisi allweddol sydd â rôl gyfrannol. Yn ogystal, mae nifer o weithgorau yn cael eu sefydlu gydag arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol i gefnogi a datblygu agweddau ar y gwaith hwn.

[1] Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013

Bydd y rhaglen yn gwella erthygl 6 a 24 y CCUHP yn benodol gan ganolbwyntio ar gryfhau hawl plentyn i fwyd maethlon sy'n gwella ei iechyd.

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol** | **Gwelliannau (X)** | **Heriau (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 1** - Mae gan bob plentyn hawliau.<br><br>**Erthygl 3** - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Mae sicrhau bod pob plentyn ysgol gynradd yn cael cynnig pryd bwyd ysgol maethlon am ddim yn ymrwymiad a rennir rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ac wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio[2] .<br><br>Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Felly, canolbwyntir yn y lle cyntaf ar ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, gan eu cyflwyno i'r ieuengaf yn gyntaf. Mae hyn yn golygu na fydd teuluoedd eraill (o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys neu nad ydynt eto'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) yn elwa ar hyn. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i adolygu cymhwystra am brydau ysgol am ddim yn ystod tymor y Senedd hon[3].<br>Mae cydgynhyrchu ar draws portffolios Llywodraeth Cymru a chyda'n partneriaid cyflawni |

[2] Y Cytundeb Cydweithio: 2021 \| LLYW.CYMRU

[3] Bydd rhai plant a phobl ifanc hefyd yn cael eu cwmpasu gan 'amddiffyniad wrth bontio'. Mae'r amddiffyniad hwn yn golygu y byddai disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fydd y meini prawf yn newid, neu unrhyw hawlwyr newydd sy'n cael prydau ysgol am ddim wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, yn cael eu hamddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim tra bod Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru, hyd yn oed os yw eu cymhwystra'n newid.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | allweddol wedi bod yn ganolog i weithredu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn lleol. Bydd cydweithio fel hyn yn golygu y bydd 186,000[4] o blant ychwanegol yn gymwys i fanteisio ar y cynnig o bryd ysgol am ddim yng Nghymru erbyn 2024. |
| **Erthygl 6** - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.<br><br>**Erthygl 15** - Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau<br><br>**Erthygl 19** - Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hô<br><br>**Erthygl 24** - Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. | X | X | Mae darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn ymyriad trawsnewidiol o ran tlodi a newyn plant ac mae'n rhan o becyn cymorth ehangach i helpu teuluoedd incwm isel a'r rhai sy'n cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw.<br><br>Maent yn sicrhau bod plant yn cael o leiaf un pryd bwyd maethlon bob diwrnod ysgol.<br><br>Byddant yn arbennig o fuddiol i rai plant, gan gynnwys y rhai heb hawl i arian cyhoeddus a phlant sy'n derbyn gofal.<br><br>Yn ogystal, maentyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd a llesiant trwy leihau'r stigma a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio arnynt o blith y rhai sydd eu hangen fwyaf, gan godi proffil bwyta'n iach ar draws yr ysgol gyfan, cynyddu'r amrywiaeth o fwydydd y mae disgyblion yn eu bwyta a gwella ymddygiad a chyrhaeddiad.<br><br>Mae darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn creu cyfleoedd i fwy o blant rannu a mwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd, a fydd, gobeithio, yn |

[4] Cyfrifwyd o ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC) 2021 – yn cynnwys disgyblion meithrin cymwys mewn lleoliadau a gynhelir.

DRAFT

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 26** - Dylai’r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.<br><br>**Erthygl 27** - Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai’r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn.<br><br>**Erthygl 31** (hamdden, chwarae a diwylliant) - Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. | | | gwireddu ein buddsoddiad yn nysgu disgyblion ac yn eu sgiliau cymdeithasol a'u hiechyd tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys llesiant ehangach, gan fod adegau bwyd yng nghwmni eraill yn cynnig ymdeimlad o berthyn mewn amgylchedd diogel ac yn gyfle i blant a phobl ifanc gymryd saib i wrando ar ei gilydd a rhyngweithio ag eraill.<br><br>Fodd bynnag, mae perygl bod yr ehangu yn golygu y bydd angen mwy o amser i weini mwy o brydau bwyd i fwy o ddysgwyr ac y gallai hyn effeithio ar eu hamser i chwarae, cymdeithasu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn hollbwysig i iechyd a llesiant plant. Dengys tystiolaeth eu bod yn cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol plant, yn lleihau gordewdra mewn plentyndod ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn profi gorbryder, iselder ac anhwylderau eraill.<br><br>Efallai na fydd plant (yn enwedig plant iau) neu grwpiau eraill yn manteisio ar y cynnig oherwydd y dewis a'r math o brydau a gynigir a'u parodrwydd i roi cynnig ar fwydydd newydd/gwahanol. Bydd y gwersi o'r ymgysylltu hyd yma yn cael eu defnyddio i lunio bwydlenni a sesiynau blasu a datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag addysg bwyd – gan integreiddio cyfleoedd i helpu plant i ddeall o ble y daw eu bwyd a phwysigrwydd deiet iach i'w llesiant.<br><br>Darparwyd cyllid ychwanegol i bob awdurdod lleol i gefnogi'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | paratoadau ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Bydd y cyllid yn helpu i wella seilwaith yr ysgolion, er mwyn sicrhau bod digon o gyfleusterau cegin a bwyta i gefnogi'r ehangu.<br><br>Yn ogystal, bydd cynlluniau gweithredu lleol yn ystyried goblygiadau ymarferol darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd a sut y gellir rheoli hyn i achosi cyn lleied o darfu â phosibl - er enghraifft, gwasgaru amseroedd cinio er mwyn sicrhau digon o amser i chwarae.<br><br>Ar ben hynny, bydd y dull fesul cam o gyflwyno'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i fyfyrio ac ymateb i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro'r broses weithredu ac yn cefnogi camau rhagweithiol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi.<br><br>Yn y tymor hwy, bydd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi cynhyrchu bwyd lleol a chadwyni cyflenwi llai - gan leihau'r ddibyniaeth ar gynnyrch sydd wedi'i fewnforio a all gael effaith waeth ar yr amgylchedd a'r hinsawdd. Bydd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi dulliau sy'n cyfrannu at wella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithredu'n dda a fydd yn sicrhau manteision iechyd cadarnhaol ar draws pob cymuned yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn cyfrannu at ddull |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgol gyfan o ymdrin â bwyd ac addysgu pobl ifanc ynghylch o ble mae eu bwyd yn dod, sut mae'n cael ei gynhyrchu ac effaith bwyd ar eu cyrff a'r amgylchedd. |
| **Erthygl 29** - Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd. | X | | Rhan bwysig o'r polisi i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yw cefnogi a hyrwyddo'r cysylltiad â bwyd lleol gymaint â phosibl, gan ddefnyddio cyflenwyr lleol a chynhyrchion tymhorol ffres. Gall hyn roi cyfleoedd i ddysgu am wahanol ddiwylliannau bwyd yn yr ysgol a'r cysylltiadau rhwng cyflenwi bwyd a'r effeithiau ar yr economi a'r amgylchedd. |

DRAFT